Cyd-gyngor
Cymwysterau

**Cynhyrchwyd yr hysbysiad hwn ar ran:**

**AQA, CBAC, CCEA, City & Guilds, Edexcel ac OCR**

**Hysbysiad i Ganolfannau**

**Cymwysterau TGAU, TAG, TLM, Sgiliau Gweithredol a Chymwysterau Project**

**Asesiadau Gwaith Cwrs a gynhelir yn ystod y cyfnod**
**1 Medi 2009 i 31 Awst 2010**

**Dilysu Gwaith Ymgeiswyr**

## 1. Cefndir

1.1 Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau gwaith cwrs TAG a TGAU a ymgymerwyd gan QCA yn 2005, cryfhawyd y *Codau Ymarfer* ar ôl hynny i egluro cyfrifoldebau'r corff dyfarnu, y ganolfan a'r ymgeisydd o ran dilysu gwaith yr ymgeiswyr.

## 2. Cod Ymarfer

2.1 Mae paragraff 5.13 *Cod Ymarfer* 2009/10 yn nodi:

*"Rhaid i'r corff dyfarnu fynnu bod canolfannau yn derbyn datganiad wedi'i arwyddo gan bob ymgeisydd er mwyn dilysu'r gwaith cwrs a gynhyrchir gan ymgeiswyr fel eu gwaith eu hunain. Rhaid cofnodi marc sero neu absennol os na all ymgeisydd gadarnhau dilysrwydd y gwaith a gynhyrchwyd ganddynt i'w asesu'n fewnol."*

2.2 Dylid dwyn sylw athrawon ac aseswyr mewnol sy'n gyfrifol am oruchwylio a dilysu gwaith ymgeiswyr at gynnwys y paragraff uchod, ynghyd â sut i weithredu os nad oes modd darparu dilysiad. Dylid bod wedi gwneud yr ymgeiswyr eu hunain yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am sicrhau mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gyflwynir. Mae'r ddogfen CGC *Hysbysiad i Ymgeiswyr, Cymwysterau TGAU, TAG, TLM, Sgiliau Gweithredol a Chymwysterau Project: Asesiadau Gwaith Cwrs* a ddosberthir ym mis Medi bob blwyddyn a'i rhoi ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk), yn rhoi cyfarwyddiadau ac arweiniad.

2.3 Atgoffir canolfannau hefyd o'r gofyn yn y Cod Ymarfer i ddangos sut y neilltuwyd credyd mewn perthynas â'r meini prawf a ddiffinnir yn y fanyleb.

## 3. Ffurflenni Dilysu

3.1 Bydd pob corff dyfarnu'n darparu ffurflenni dilysu, naill ai ar ffurf gyffredinol neu ar ffurf benodol i'r pwnc. Os yw athro/athrawes yn teimlo nad yw'n gallu dilysu gwaith ymgeisydd arbennig, yna ni ellir derbyn gwaith yr ymgeisydd hwnnw i'w asesu. Dylid cofnodi marc o sero ar y daflen farciau neu ei amgodio ar y ffeil EDI.

3.2 Os bydd afreoleidd-dra mewn gwaith cwrs yn cael ei ddarganfod **cyn** i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu, dylid delio â hyn yn ôl gweithdrefnau mewnol y ganolfan. Nid oes angen cyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu.

3.3 Os bydd afreoleidd-dra mewn gwaith cwrs yn cael ei ddarganfod gan ganolfan **ar ôl** i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflen ddilysu **rhaid** i bennaeth y ganolfan gyflwyno manylion llawn yr achos i'r corff dyfarnu perthnasol ar y cyfle cyntaf. Mae arweiniad i'w gael yn llyfryn y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisïau a Gweithdrefnau* ynghyd â ffurflen JCQ/M1. Mae copïau o'r llyfryn hwn i'w cael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

3.4 Yn unol â'r *Cod Ymarfer*, ni fydd cyrff dyfarnu'n gallu derbyn marciau lle nad yw'r athro a'r ymgeisydd wedi cadarnhau dilysrwydd.

3.5 Yn ystod y broses safoni allanol, os nad oes tystiolaeth bod y gwaith wedi'i ddilysu'n iawn bydd y corff dyfarnu'n gosod y marc(iau) cysylltiedig ar sero

## 4. Dogfennau CGC – Gwybodaeth Bellach

4.1 Yn ogystal â'r ddwy ddogfen CGC a grybwyllwyd (*Hysbysiad i Ymgeiswyr, Cymwysterau TGAU, TAG, TLM, Sgiliau Gweithredol a Chymwysterau Project: Asesiadau Gwaith Cwrs* ac *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisïau a Gweithdrefnau),* tynnir sylw'r athrawon ac aseswyr sy'n gyfrifol am asesu gwaith cwrs at y llyfrynnau CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs* a *Llên-ladrad mewn Arholiadau: Arweiniad i Athrawon/Aseswyr* sydd hefyd ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

Gofynnir i chi nodi y dylid cyfeirio unrhyw ymholiad am weithdrefnau gweinyddol i'w dilyn wrth gyflwyno samplau a marciau gwaith cwrs at y corff dyfarnu unigol dan sylw.

©2009